

Yr Athro



CYNHADLEDD FLYNYDDOL

Rhifyn
Mawrth 2025

UCAC

CYNHADLEDD FLYNYDDOL UCAC '25

28-29 Mawrth 2025
Gwesty'r Holiday Inn, Caerdydd



AM DDIM
i aelodau
UCAC

EIN SIARADWYR



Rhiannon Parry



Faye McGuinness
Rheolwr Comisiynu ac Ansawdd

Mwy o wybodaeth ar dudalen 8

EICH AELODAETH

Cofiwch ddiweddarau eich manylion!

- Manylion cyswllt
- Cyfeiriad cartref
- Lleoliad gwaith
- Categori aelodaeth (dyddiau gwaith)

Mewngofnodwch i'ch cyfrif
www.ucac.cymru
neu cysylltwch â'r swyddfa:
aelodaeth@ucac.cymru | 01970 639950



MYNEDIAD AM DDIM I AELODAU UCAC



Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

Mwy o wybodaeth ar dudalen 6

BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed heriol erbyn 2050, sef cyrraedd o nod ofiliwn o siaradwyr Cymraeg, ac i ddyblu canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Ni ellir gwadu pwysigrwydd y sector addysg os ydym am gyrraedd yr uchelgais hwn. Mae hi'n amlwg mai cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i'n disgyblion yw'r ffordd fwyaf effeithiol a sicraf o sicrhau siaradwyr hyderus.

Fodd bynnag, o fewn y sefyllfa bresennol, mae'n amlwg bod angen i bob ysgol a phob sector gyfrannu at ddatblygiad yr iaith, er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y BIL – BLE YDYM ARNI AR HYN O BRYD?

Amserlen Bil y Gymraeg ac Addysg

Prif amcan Bil y Gymraeg ac Addysg yw sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr iaith Gymraeg annibynnol. Os caiff yr amcan hwn ei wireddu, bydd hyn yn helpu i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Rydym eisoes wedi clywed tipyn am y Bil ers tro, ond ble rydym arni o ran amserlen y Bil?

Dyma grynodedb o'r amserlen hyd yma:



15 Gorffennaf 2024 – Cyflwyno'r Bil

Gorffennaf-Hydref – ymgynghori ac ymgysylltu (cafodd UCAC gyfle i gyflwyno tystiolaeth lafar o flaen y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg)

Rhagfyr 2024 – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cyflwyno adroddiad ar y Bil ac yn cyflwyno 11 o argymhellion

14 Ionawr 2025 – Trafodaeth yn y Senedd, derbyn egwyddorion y Bil.

Cyfnod 2: 15 Ionawr - 19 Chwefror

Pellach rydym yng nghyfnod 3 - dyma'r cyfnod lle gall Aelodau o'r Senedd gyflwyno gwelliannau i'r Bil.

Ym mis Rhagfyr 2024 cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad a oedd yn cynnwys un argymhelliad ar ddeg.

Os am ddarllen yr adroddiad yn llawn, ewch i

<https://senedd.wales/media/1alfdcke/cr-ld16872-w.pdf>

Trafodwyd y Bil yn y Senedd ar 14 Ionawr.

Trafodaeth Ionawr 14.....

Wrth ymateb i adroddiadau'r pwyllgorau craffu, tynnodd Mark Drakeford sylw at chwe mater sylweddol mewn perthynas â'r Bil.

1. Y Gweithlu – Er mwyn i'r Bil fod yn llwyddiant, mae angen sicrhau gweithlu digonol. Heb weithlu digonol, ni fydd modd sicrhau cynnydd o ran y Gymraeg yn ein hysgolion. Mewn ymateb i bryderon ynghylch y gweithlu, nododd Mark Drakeford 'Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi, yn y fframwaith cenedlaethol, y camau sydd i'w cymryd i sicrhau bod gweithlu digonol yn cael ei ddatblygu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.'
2. Llwyth Gwaith - Y bwriad yw diweddarau'r asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith ar ddiwedd trafodion Cyfnod 2. Wrth lunio'r asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith, bydd sylw'n cael ei roi i'r dystiolaeth a glywyd gan y pwyllgorau ac ar drafodaethau gydag undebau athrawon ac eraill.
3. Y Term 'Addysg Gymraeg' – Hyd yma, nid yw'r term 'addysg Gymraeg' wedi bod yn gwbl glir o fewn y Bil, gan na cheir gwahaniaethu rhwng addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y bwriad yn y cam nesaf yw rhoi mwy o eglurder ar y mater yma, ond nodwyd 'bod pwrpas y Bil yn cynnwys addysgu'r Gymraeg fel pwnc a darparu addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'.
4. Cynyddu cyfran y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif iaith Cymraeg – 'Mae hi'n amlwg mai'r ffordd orau o sicrhau siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol yw drwy gynnig addysg cyfrwng Cymraeg',

dyna sy'n cael ei ddweud yn Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Rhagfyr 2024). Nododd Mark Drakeford yn ei araith yn Senedd Cymru ar Ionawr 14 2025' Bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i gadarnhau'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth yn parhau i'w roi i gynyddu cyfran y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion prif iaith Cymraeg'.

5. Y Gymraeg mewn ysgolion (yn ôl categori) – Credai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod angen rhoi ystyriaeth i faint o addysg Gymraeg fyddai i'w darparu ymhob categori iaith ysgol. Er mai mater i reoliadau fyddai cadarnhau hynny, nododd Mark Drakeford iddo gael ei berswadio y 'byddai'n ddefnyddiol darparu mwy o fanylion am yr ystod debygol o ddarpariaeth iaith yr ydym yn rhagweld y byddwn yn ymgynghori arno...'

6. Addysg Drydyddol – Bydd gwelliannau'n cael eu gwneud, er mwyn cynnwys addysg drydyddol o fewn y fframwaith cenedlaethol. <https://record.senedd.wales/Plenary/14804> (paragraffau 301 i 389)

Y Gymraeg yn ein hysgolion

Rydym yn croesawu'r Bil, ond yn ymwybodol bod yna waith mawr i'w wneud. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn ein hysgolion i hybu'r Gymraeg ac yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad nifer o unigolion, o fewn cyd-destunau amrywiol.

Mae gweddill yr erthyglau yn rhoi sylw i rai o'n haelodau a'u profiadau nhw – profiadau o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg, unedau trochi a hefyd unigolyn sydd ar fin dechrau ar ei gyrfa.

TAITH IAITH Y FERCH O FALDWIN

gan Julia James



Dechreuodd fy nhaith iaith ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr pan gefais fy ngeni yn y Trallwng ganol haf 1968.

Cefais addysg naturiol ddwyieithog yn yr ysgol gynradd ar y ffin yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant, ond ychydig iawn o Gymraeg a dderbyniais yn ystod fy addysg Uwchradd yn ysgol Llanfyllin, gogledd Powys. Yn wir mae un atgof yn sefyll allan yn glir am labwst o fachgen oedd yn gweiddi 'Welshies' arna i a 'mrawd am feiddio siarad Cymraeg yn y dosbarth. Rhyfedd oedd dysgu rai blynyddoedd yn ddiweddarach iddo symud ysgol a mynd i Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul o bobman yn y byd! Byddai angen polish ar ei Gymraeg i fynychu'r ysgol honno'n sicr!

Roedd fy mhrofiadau addysgol yn ddigon amrywiol a chyfoethog, ac roeddwn yn tynnu fwy at yr athrawon oedd yn fodlon siarad Cymraeg efo fi yn yr ysgol.

Aeth y daith iaith â finnau o Lanfyllin i Goleg Aberystwyth lle roeddwn yn astudio Cymraeg ar gyfer fy ngradd. Tipyn o sioc ar ôl cael nemor ddim Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

Cefais brofiadau cyfoethog iawn dan law DJ Bowen, Bobi Jones, John Rowlands, Marged Haycock a'u tebyg. Roedd yn sioc fawr ac eto'n bleserus i fyw fy mywyd mwy neu lai yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma, er i fi astudio rhywfaint o Saesneg yn y brifysgol hefyd.

Aeth y daith iaith â fi o Ddyffryn Tanat i Ddyffryn Teifi ym 1990, pan wrthodais swydd yn Llanfyllin, a derbyn swydd blwyddyn fel athrawes Gymraeg a Saesneg yn Llandysul. Roedd yn dipyn o sioc i mi rhaid dweud – yn enwedig o fyw mewn cymuned mor Gymreig. Roedd rhai o'r disgyblion yn Llandysul yn edrych yn syn arnaf pan oeddwn yn defnyddio rhai o eiriau sir Drefaldwyn fel 'ceth' am 'gath', a 'dy fem a dy ded' yn hytrach na 'dy fam a dy dad!' Roedd yn gysur mawr cael byw gyda hen ffrindiau o sir Drefaldwyn yn eu gwesty fferm pum seren ym Mhenbontbren, Glynarthen. O leiaf roeddwn yn gallu siarad yn fy acen naturiol yno!

Ar ôl blwyddyn, rhaid oedd gwneud penderfyniad am y daith iaith, a fy mhenderfyniad oedd i aros yn Nyffryn Teifi. Treuliais lawer o flynyddoedd difyr iawn yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a hynny gan mwyaf i ddisgyblion oedd yn Gymry Cymraeg hollol naturiol ac amryddawn. Wrth edrych nôl gallaf weld mor ffodus oeddwn i o gael y fath ffrindiau. Rwy'n ffrindiau da gyda nifer o athrawon/disgyblion ers y cyfnod hynny – trwy'r nawdegau hyd droad y ganrif ac ymlaen wrth gwrs.

Wrth i'r blynyddoedd garlamu mlaen, roeddwn yn parhau i fod yn ffodus fod agwedd gadarnhaol ac iach tuag at yr iaith yn y cesail hynny o Geredigion.

Braint yn wir oedd dysgu'r Gymraeg yno, a hynny dros yrfa oedd yn rhychwantu 35 mlynedd yn y Dyffryn. Dyna beth oedd taith iaith sefydlog yn llawn boddhâd. Un o lwyddiannau'r ysgol oedd y ffocws barhaol ar greu agwedd ysgol gyfan tuag at ddatblygu cynlluniau hybu sgiliau iaith a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Roedd yr ethos a'r diwylliant yn anelu at greu siaradwyr Cymraeg oedd yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac roedd hefyd yn ymfalchïo yn eu cynefin

Rwy'n ystyried fy hun yn ffodus iawn i fod wedi cael bod yng Ngheredigion cyhyd, lle mae agwedd iach a chynhaliol tuag at yr iaith ar y cyfan. Mae angen cofio fod sefyllfa unigryw Ceredigion a Gwynedd, sy'n ynysu'r ardaloedd hynny i raddau rhag yr heriau o angen hyrwyddo'r Gymraeg gan fod hynny'n digwydd yn annatod ar draws y siroedd hynny.

Rhaid cofio fodd bynnag mai yng Nghaerdydd mae'r tyfiant mwyaf o safbwynt siaradwyr yr iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen 'Stori'r Iaith' gan S4C yn ddogfen ardderchog ac yn amlinellu dyfodol yr iaith yn yr ardaloedd trefol. Ni ellir mwyach ystyried cefn gwlad Cymru'n gadarnle'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod Cofid, gwelais gyflwyno'r Gymraeg yn fwy o her a hynny yn aml mewn gwersi ar-lein. Am y rheswm hynny, derbyniais swydd gyda chwmni Hyfforddiant Addysgol fel aseswr cyfrwng-Cymraeg. Roedd hyn yn agoriad llygad i fod yn cyflwyno gwaith trwy'r Gymraeg i oedolion, athrawon yn aml, a hynny yn eu mamiaith wrth astudio cyrsiau Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Roedd yn rhoi boddhâd i mi ond roedd y swydd yn dechnolegol drwm ac amheronol ac yn gwneud y gwaith o ddysgu trwy'r Gymraeg yn fwy heriol.

Yn ystod y cyfnod hwn, dechreuais weithio'n rhan amser yn dysgu Cymraeg i fyfyrwyr Coleg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Roedd y gwaith yn bleserus, ac roedd paratoi portffolio cyfrwng Cymraeg o brofiadau ieithyddol i'w hasesu yn sicr o gymorth wrth feithrin balchder yn y myfyrwyr o iaith eu mamwlad.

Roedd y daith iaith yn un ddiddorol i fi, ac roedd agweddau'r myfyrwyr yn gwbl ardderchog, un ai os oeddent ar ben uchaf y continwwm iaith, neu ar ddechrau eu siwrne ieithyddol. Yn yr un cyfnod, roeddwn hefyd yn paratoi unedau o waith i adran Rhagoriaith y coleg. Roedd y drefn a'r profiad yn gwbl rhagorol gan Rhagoriaith, ac roeddent yn sicr yn byw i fyny i'w henw, Rhagoriaith. Dyma beth oedd llysgenhadon ardderchog dros yr iaith Gymraeg, ac rwyf yn parhau i fwynhau'r profiadau yma wrth addysgu staff y coleg i siarad Cymraeg y dyddiau hyn.

Erbyn 2023 roedd fy nhaith iaith wedi mynd â fi i'r ysgol Uwchradd leol i addysgu Cymraeg, a hynny yn Aberteifi. Roedd yn brofiad gwahanol ond hynod ddiddorol, ac yn clymu fy nhaith yn daclus gyda dechrau fy siwrne ieithyddol yn Llanfyllin. Yn debyg i fi, roedd y mwyafrif o'r disgyblion yn gweld astudio'r iaith fel ffordd o agor drysau i fywyd mwy diddorol ac eang.

Rwyf wedi cael profiadau ardderchog yn yr ysgol ac rwyf wedi mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i ddisgyblion oedd yn awyddus i lwyddo mewn iaith a llenyddiaeth Gymraeg. Efallai nad oeddent yn Gymry naturiol, ond oherwydd eu profiadau a'u hangerdd mewn ysgolion cynradd o fewn y sir, roeddent yn medru'r Gymraeg i lefel uwch na'u hyder yn aml. Ceir ffocws ar lefel ysgol gyfan ar y weledigaeth o greu siaradwyr Cymraeg sy'n ymfalchïo yn eu cynefin ac yn eu defnydd o'r iaith yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Cynhwysir system o wobrwyo ar draws yr ysgol sy'n cydnabod ymdrechion disgyblion i ddatblygu eu medrau iaith yn y Gymraeg.

Defnyddir holiadur y 'Siarter Iaith' fel modd o gasglu tystiolaeth o safbwynt agweddau'r disgyblion tuag at y Gymraeg. Dyma lle mae fy siwrne iaith yn parhau am y tro -gan fod angen gweithio at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Gobeithiaf barhau hefyd i helpu allan yng ngholeg y Drindod Dewi Sant, gan fod myfyrwyr a staff yn gwerthfawrogi'r cyfle I ddysgu'r iaith er mwyn agor drysau i fywyd mwy llewyrchus.

A dyna ni.. fy nhaith iaith yn gyflawn. Gobeithio eich bod wedi dysgu rhywbeth newydd, yn enwedig y ffaith fod y Gymraeg mor bwysig ag erioed, yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Diolch o waelod calon am yr holl brofiadau cyfoethog rwyf wedi eu derbyn fel athrawes Gymraeg. Mae hi wedi bod yn bleser dilyn datblygiad fy nisgyblion ar hyd y blynyddoedd, a phob dymuniad da i chi athrawon Cymru wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ymlaen mae'r nod - hyd 2050 a'r miliwn o siaradwyr newydd!

UCAC

yr undeb sy'n diogelu
athrawon a darlithwyr Cymru

01970 639950
ucac@ucac.cymru
www.ucac.cymru

Eisteddfod yr Urdd 2025

! Aelodau UCAC Castell-nedd !

**Hoffech chi docyn mynediad
am ddim i'r maes eleni?**

Mae UCAC yn edrych am aelodau i wirfoddoli ar ein stondin.

3 awr o bresenoldeb ar ein stondin =

1 x tocyn am ddim
a chyfle i ennill hamper

CYSYLLTWCH
os oes gennych ddiddordeb:

Gwenno@ucac.cymru
01970 639950



**Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025**



O'r chwith i'r dde: Y Cynghorydd **Dewi Jones**, Deilydd Portffolio Addysg Gwynedd, **Zoe Greenhow**, Cymhorthydd yr uned, **Sara Wyn Jones**, athrawes yr uned, **Rhys Meredydd Glyn**, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Cyngor Gwynedd.

CANOLFANNAU TROCHI GWYNEDD

Rhys Meredydd Glyn

Dychmygwch symud i wlad newydd a chael eich amgylchynu gan bobl sy'n siarad iaith sy'n swnio'n hollol ddieithr. Dyna yw hanes nifer o ddysgwyr sy'n cyrraedd Cymru. Mae rhai yn deall un o'r ieithoedd yn eu cymunedau newydd ac eraill sydd wedi teithio o bellter byd, gan wynebu sefyllfa lle mae dwy iaith cwbl ddieithr a chwbl wahanol yn cael eu siarad o'u cwmpas. Braf oedd cael sgwrsio gyda Rhys Meredydd Glyn, Pennaeth System Drochi Addysg Gwynedd a chlywed am y gwaith arwrol sy'n digwydd yng nganolfannau trochi'r sir, er mwyn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn dod yn siaradwyr Cymraeg.

Mae canolfannau trochi wedi bodoli yng Ngwynedd ers degawdau, ond mae buddsoddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi golygu fod safleoedd addysg drochi uwchradd newydd wedi eu sefydlu yn Nhywyn a Bangor. Yn ogystal, gwnaethpwyd gwelliannau i gyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog ac yn yr unedau trochi cynradd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Mae'n braf meddwl fod yr adeiladau hyn yn adeiladau sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain ac yn cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf. Mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gyfoes ac un datblygiad diddorol o ran hynny yw'r gwaith sydd wedi ei wneud i ddatblygu Aberwla, sef adnodd addysgol rhithwir. Mae'r adnodd hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd mewn pentref rhithiol a grëwyd gan yr awdures Anni Llŷn ac a ddatblygwyd yn ddigidol gan gwmni Animated Technologies, MSbarc Gaerwen.

Daw hyd at 16 disgybl ir chwe chanolfan drochi ar y tro i ddilyn cwrs dwys deng wythnos, er mwyn caffael yr iaith a'u galluogi i ddychwelyd i'w hysgolion gyda'r hyder i ymarfer a datblygu eu Cymraeg ymhellach. Mae'r sawl a ddaw ar y cyrsiau hyn yn datblygu eu gallu yn y Gymraeg yn gyflym, yn wir mae'n rhyfeddol pa mor gyflym y dônt i siarad yn hyderus. O fewn y canolfannau iaith, mae'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i fentro, cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgolion prif lif i fentro ymhellach a mynd ymhellach ar eu taith ieithyddol.

Yn ogystal ag addysgu dysgwyr yn y canolfannau, mae'r athrawon trochi hefyd yn cynnal HMS a sesiynau gydag athrawon prif lif, er mwyn rhannu egwyddorion addysgu y cwrs trochi gyda'r athrawon a fydd yn dysgu'r disgyblion hyn wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.

Mae gan bob clwstwr o ysgolion yn y sir Gydlynnydd Iaith sy'n cydweithio hefyd gyda Chydlynnydd y Siarter Iaith, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r defnydd cymdeithasol ohoni. Mae nifer o brosiectau cyffrous yn digwydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Yn eu mysgr, mae prosiectau Tywyn a Bangor lle mae plant cynradd yn gweithio ar y thema 'Tirwedd' ac yn edrych ar eu perthynas gyda'r tir o'u cwmpas ac yn ystyried hunaniaeth a phwysigrwydd y Gymraeg a Chymru iddyn nhw. O ganlyniad i gydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd, maeardaloedd Bangor a Thywyn wedi bod wrthi'n brysur yn creu gwisgoedd ac yn cynllunio dawnsfeydd, ymhlith pethau eraill, yn barod ar gyfer cymryd rhan yng Ngorymdeithiau Gŵyl Ddewi eu hardaloedd.

Drwy'r gweithgareddau hyn i gyd, mae athrawon Gwynedd yn rhoi o'u gorau i sicrhau fod gan ddisgyblion yr ardal, beth bynnag fo eu cefndir ieithyddol, sylfaen ieithyddol gref o ran y Gymraeg.

PWRPAS CYNHADLEDD FLYNYDDOL?

- Rhoi cyfle i aelodau dderbyn adroddiadau am waith yr Undeb ledled Cymru
- Ystyried materion llosg sy'n ymwneud â'r byd addysg drwy drafod cynigion a dod i benderfyniad, er mwyn gallu cytuno ar farn swyddogol yr Undeb
- Rhoi cyfle i aelodau gymdeithasu, trafod a dod i adnabod ei gilydd yn well
- Urddo Llywydd ac Is-lywydd am y flwyddyn ddilynol

FAINT MAE'N EI GOSTIO I FYNYCHU?

- *Ni fydd UCAC yn gyfrifol am brynu diodydd ychwanegol yn ystod y digwyddiad
- Nid oes ffi i aelodau UCAC fynychu'r Gynhadledd. Mae UCAC yn talu unrhyw gostau teithio i gyrraedd lleoliad y Gynhadledd.
- Bydd UCAC yn talu costau gwely a brecwast a bydd prydau bwyd yn cael eu darparu yn ystod y Gynhadledd.

MANTEISION O FYNYCHU

Mae'n gyfle i:

- gymryd rhan weithredol yng ngwaith yr Undeb
- wneud gwahaniaeth a llywio penderfyniadau
- ddod i adnabod cydweithwyr sy'n rhannu'r un profiadau
- gymdeithasu a dod i adnabod pobl ledled Cymru
- ddod i adnabod swyddogion a staff yr Undeb

archebu lle



Dewch eleni...mae'n debyg y byddwch yn ôl y flwyddyn nesaf!

Mae'r rhan fwyaf sy'n dod unwaith yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn!

HYRWYDDO'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG YNG NGWENT

Rob Hughes



Rob Hughes a'r Criw Cymraeg

Er mwyn cyrraedd y nod o gael mil o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'r angen i hyrwyddo'r iaith ym mhob math o ysgol. Cofiw'n mai prif amcan y Bil yw ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol fel defnyddiwr iaith Gymraeg annibynnol. Mae cyd-destun ein hysgolion yn amrywiol iawn, a'r sefyllfa ieithyddol yn gwahaniaethu'n fawr o fewn muriau'r ysgol ac yn y gymuned y mae'r ysgol yn rhan ohoni.

Prin iawn yw'r siaradwyr Cymraeg cynhenid yn ardal Tredegar a phrin yw profiad y dysgwyr o'r iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol. Fodd bynnag, mae ymdeimlad cryf o Gymreictod yn yr ysgol ac mae Adran y Gymraeg a'r Cydlynnydd Dwyieithrwydd, Rob Hughes, wedi gweithio'n galed i hybu'r iaith.

Mae'n dweud ei fod yn ffodus bod y Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli yn parchu'r Gymraeg ac yn dangos agwedd iach iawn tuag yr iaith ac yn agored iawn i hybu'r Gymraeg. Ers iddo ddechrau dysgu Cymraeg yn Ysgol Tredegar, mae'r Adran Gymraeg wedi creu seiliau cryf i'r iaith o fewn yr ysgol, drwy gymryd y pwnc o ddifrif a thrwy esiampl yr Adran, maent wedi sicrhau bod eraill hefyd yn gweld pwysigrwydd y Gymraeg. Mae rhoi statws i'r pwnc ynghyd â pholisi dwyieithrwydd grymus wedi bod yn allweddol i'r gwaith.

Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned ac mae Adran y Gymraeg yn cyfeirio'r disgyblion at y llefydd lle gellir gwneud hynny. Mae'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod y dysgwyr yn gwybod lle gallant ddefnyddio'r iaith. Maent yn ymweld â busnesau lleol, gan gynnwys caffi lleol, lle mae modd defnyddio'r iaith.

Cynhelir gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, gan roi cyfle i ddysgwyr sgwrsio'n anffurfiol yn y Gymraeg ac mae aelodau o'r Criw Cymraeg yn cynorthwyo yn y broses o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fynd ar deithiau a threulio amser mewn gwrsyloedd Cymraeg a chymysgu gydag eraill sydd ar yr un siwrnai ieithyddol.

Nid y disgyblion yn unig sydd ar siwrnai ieithyddol, ond mae'r athrawon hefyd yn frwd dros gynyddu eu gallu yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae dros ddeg o athrawon yn dilyn rhyw fath o gwrs yn y Gymraeg.

Mae'r agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg yn treiddio drwy'r ysgol a'r polisi cadarn, y parch at y pwnc a'r agwedd gadarnhaol tuag y Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn safon y canlyniadau yn yr arholiadau allanol. Siom, fodd bynnag, oedd cau'r chweched Dosbarth yn yr ysgol dros ddeuddeng mlynedd yn ôl. Cyn hynny, roedd nifer o ddisgyblion yn mwynhau'r cyfle o barhau gyda'u hastudiaethau o'r Gymraeg yn chweched Dosbarth yr ysgol a rhan o lwyddiant y cwrs Safon Uwch, oedd y ffaith fod y gwarsi Safon Uwch yn gyfangwbl drwy'r Gymraeg. Mae'n destun balchder i Rob a'i dîm o athrawon yn Ysgol Gyfun Tredegar fod nifer uchel o'u cyn ddisgyblion wedi parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg ac wedi graddio yn y Gymraeg. Bellach, maent yn meithrin eu disgyblion a'u paratoi ar gyfer addysg bellach, ond nid ydynt yn cael y profiad o'u harwain mor bell ar hyd llwybr y Gymraeg. Fodd bynnag, maent yn dal i ymhyfrydu mewn canlyniadau TGAU da yn y Gymraeg (ymysg y pynciau sy'n cael y canlyniadau gorau yn yr ysgol) ac yn dilyn hynt a helynt y disgyblion hynny sy'n parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg mewn sefydliadau eraill, gyda diddordeb mawr. Wedi'r cyfan, nhw sydd wedi eu cychwyn ar y siwrnai ac wedi eu rhoi ar ben y ffordd.

Mae hanes Rob yn hanes sy'n codi'r galon ac yn dangos beth sy'n bosibl o ran y Gymraeg. Fe'i magwyd yn Lloegr ac er bod ganddo gysylltiadau Cymreig a'i deulu ar ochr ei fam â'u gwreiddiau yn sir Benfro, eto nid oedd ei rieni yn siarad Cymraeg. Penderfynodd e fynd ati i ddysgu'r Gymraeg a llwyddodd i wneud hynny, gan raddio yn y Gymraeg a hyfforddi i fod yn athro. Bellach, mae'n athro ysbrydoledig, a hefyd yn magu ei blant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei fywyd personol ac yn ei fywyd proffesiynol, mae Rob yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n ddolen bwysig yng nghadwyn parhad yr iaith.

O NERTH I NERTH !

Arian parod am gyflwyno aelodau newydd

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i **UCAC**, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn **£25** yr un.

**Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnyg ymaelodi arall.*



Manteisiwch ar y cyfle!

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:
ucac@ucac.cymru | 01970 639950



- Aelodau presennol UCAC
- Cynrychiolwyr UCAC

Manteisiwch ar y cyfle!

Os manteisiwch yn llawn ar yr ymgyrch yma mae modd i chi dderbyn eich tâl aelodaeth am ddim am y flwyddyn. Does dim uchafswm o aelodau y gallwch eu recriwtio.



.....ewch amdani!



ATHRAWON Y DYFODOL

Evie Wilkins

Pan fo cymaint o sôn am brinder athrawon a chyn lleied yn dewis addysgu fel gyrfa, roedd hi'n chwa o awyr iach i wrando ar Evie Wilkins yn rhannu ei phrofiadau a'i dyheadau hi.

A hithau'n 24 oed, mae Evie yn ei blwyddyn olaf ym Met Caerdydd ac yn edrych ymlaen at gael ei swydd addysgu gyntaf erbyn mis Medi nesaf.

Dyma enghraifft o unigolyn o Flaenau Gwent a fagwyd mewn cartref di-Gymraeg ond sydd ar dân dros y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Penderfynodd rhieni Evie anfon eu tripledi (Evie, a'i brawd a'i chwaer) i ysgol cyfrwng Cymraeg Bro Helyg. Oddi yno, aethant i Ysgol Gwynllyw i barhau â'u haddysg Gymraeg. Ar ddiwedd ei chyfnod yn Ysgol Gwynllyw, nid oedd Evie yn siŵr iawn beth oedd y cam nesaf, ac er iddi ystyried gwneud gradd mewn Seicoleg, eto i gyd nid oedd yn gwbl argyhoeddedig mai dyna'r llwybr iddi hi. Cafodd gynnig swydd cynorthwy-ydd Dosbarth yn ei hen ysgol (Ysgol Gwynllyw). Dyna lle y bu am dair blynedd, yn mwynhau'r profiad o weithio gyda dysgwyr blynyddoedd 7-9, gan roi ei chefnidir Seicoleg ar waith wrth ymwneud â disgyblion gyda'u holl anghenion a'u holl wahaniaethau. Roedd hi wrth ei bodd yn gweld fel roedd y Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio'r angen i roi cyfleoedd i bawb a sut oedd athrawon yn teilwra addysg ar gyfer anghenion unigol disgyblion.



Yn dilyn ei phrofiad fel cynorthwy-ydd, penderfynodd Evie y byddai'n hoffi her bellach, a dyma fynd ati i ddilyn cwrs i fod yn athrawes. Felly, dyma adael ei swydd a dechrau ar gwrs ym Mhrifysgol Met Caerdydd. Teimla fod ei phrofiadau fel cynorthwy-ydd wedi ei pharatoi'n dda ar gyfer y cwrs ac mae hi wedi bod wrth ei bodd yn astudio, rhannu mewn darlithoedd a seminarau yn ogystal â threulio amser mewn lleoliadau amrywiol.

Ar ddiwedd y cwrs, mae Evie yn llwyr ymwybodol o heriau'r proffesiwn – y llwyth gwaith sydd ar athrawon a'r angen i gael y cydbwysedd cywir rhwng bywyd a gwaith. Diddorol oedd ei chlywed yn sôn am destun ei thraethawd hir – astudiaeth o le Deallusrwydd Artiffisial (AI) ym myd addysg. Gobeithio y gall y genhedlaeth dechnolegol hon, ddefnyddio'u gwybodaeth o'r maes, er lles athrawon.

Mae cael dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn bwysig iawn iddi ac mae wedi gwerthfawrogi'r awyrgylch deuluol, glòs o fewn y grŵp cyfrwng Cymraeg.

Mae'n awyddus iawn o gael gweithio mewn awyrgylch o'r fath mewn ysgol – ysgol lle rhoddir pwyslais ar gydweithio a rhannu adnoddau. Mae hi am i blant eraill o gefndir tebyg i'w chefnidir hi weld pwysigrwydd y Gymraeg a phŵer y Gymraeg. Mae'n croesawu sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle na chlywir llawer o Gymraeg ar hyn o bryd. Byddai trywydd ei bywyd hi wedi bod yn gwbl wahanol pe na bai wedi cael y cyfle i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae clywed Evie yn siarad am ei phrofiadau yn ysbrydoliaeth ac yn hwb i'r dyfodol. Os cawn ddigon o bobl tebyg i Evie yn ymuno â'r proffesiwn, bydd y Gymraeg yn ffynnu.

YN FY MARN I.....

SENEDD CYMRU, BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG CYMRU

Ceri Evans – Llywydd Cendlaethol UCAC



Mae bil y Gymraeg yn, ar yr wyneb, yn edrych yn wych. “Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y Bil yn gadarn yng nghyd-destun agenda Cymraeg 2050, sy’n cynnwys dau brif darged:

- miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; a
- chynnydd yng nghyfran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050.”

Dau darged clodwiw iawn. Maent yn parhau i ddweud “addysg yw’r maes polisi mwyaf dylanwadol o ran creu siaradwyr newydd” ac “nid oes yr un maes polisi arall yn cael cymaint o ddylanwad ar alluoedd ac arferion ieithyddol”. Yn arwynebol mae hyn yn ymddangos yn deg. O feddwl ymhellach fodd bynnag, mae’n peri i un cwestiwn godi, sef beth yn union yw barn y Llywodraeth

am yr hyn sydd yn mynd ymlaen mewn gwersi dros y blynyddoedd?

Mae pwysau gwaith athrawon yn amlwg yn destun pryder dros y blynyddoedd diwethaf, a heddiw yn fwy nac erioed. Ydy’r geiriad yma yn awgrymu fwy o bwysau byth?

Peidiwch â phoeni’n ormodol, gan fod y bil yn mynd ymlaen i ddweud “Mae cydnabyddiaeth gynyddol na fydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu darparu’r niferoedd gofynnol o siaradwyr Cymraeg ar eu pen eu hunain. I wneud hyn, rhaid trawsnewid y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys amcan o weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr fel bod o leiaf 70% o’r dysgwyr hynny’n gallu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.” Mae hyn yn ymddangos yn wych, mae gymaint ohonom wedi dweud, dros y blynyddoedd, fod angen ehangu addysg Cymraeg a’r defnydd o’r iaith Gymraeg y tu hwnt i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig. Mae ESTYN wedi sôn am ba mor anghyson yw’r defnydd o’r Gymraeg tu allan i ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly mae’n hanfodol datblygu hyn os yw’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn un gwirioneddol posib.

O ddarllen ym mhellach i mewn i’r bil, ac mae sôn am Atodlen 1, sydd yn disgrifio’r categorïau gwahanol o ddsbarthu defnyddwyr y Gymraeg, sef C2, C1, B2, B1, A2 ac A1. Mae’r categori A2 ac A1 yn sôn am Ddefnyddwyr Cymraeg Sylfaenol, ac yn sydyn rwy’n dechrau pryderu am y bil yma. Dyw’r categori yma ddim yn ymddangos fel dull a fydd yn llwyddo i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn wir mae’n awgrymu (i mi o leiaf) parhau gyda’r dulliau presennol o addysgu Cymraeg. Mae’r cyffro o feddwl bydd addysg Cymru yn cael ei chwyldroi, gan roi’r cyfleon i bob disgybl ddefnyddio’r Gymraeg yn ymddangos mor bell ag erioed. Mae’r ymadrodd Saesneg o aildrefnu cadeiriau ar fwrdd y Titanic yn dod i’r meddwl. Gobeithiaf fy mod yn anghywir.

DYSGU CYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG

Lona Evans

Ers 35 mlynedd, dw i wedi bod yn trio creu siaradwyr Cymraeg newydd yng Nghymru. Yn bwysicach o lawer na hynny, dw i wedi bod yn trio annog fy nisgyblion i ddewis ffordd haws o ddysgu'r iaith i'r genhedlaeth nesaf sef plant fy nisgyblion presennol. Dw i'n cofio i brifathro Ysgol y Grango dros ugain mlynedd nôl ddweud, 'Although I'm sad to see you go, at the rate you were going, there would not be any student attending here as they would choose Welsh medium education for their children'. Mae newid agwedd yr un mor bwysig at ddyfodol ein hiaith. Gyda llaw, braint yw cael clywed mai un o fy nghyn-ddisgyblion yw pennaeth Cymraeg Ysgol y Grango erbyn hyn. Heb os, mae dysgu Cymraeg fel ail iaith yn dalcen caled. Yn Ysgol Uwchradd Caerdydd, mae'r iaith Gymraeg yn drydedd neu bedwaredd iaith i dros 800 o ddisgyblion gan fod 30 o ieithoedd yn cael eu siarad o fewn cymuned yr ysgol. Dw i wrth fy modd yn darganfod geiriau Pwyleg, Wrddw, Mandarin ac Arabeg, a darganfod ydy safle'r ansoddair mewn brawddeg yn dilyn yr un rheol â'r Gymraeg. (Yr ateb ar y cyfan yw ydy gyda llaw, achos yr iaith Saesneg sydd yn wahanol.) Dw i'n cytuno gyda Chymdeithas yr Iaith mai cyfran fychan sy'n dod yn rhugl ond mae pob un yn werthfawr a dylen ni ddim anghofio amdanynt. Yn wir mae 3 athrawes Gymraeg yng Nghaerdydd wedi eu hyfforddi yma o fewn y 5 mlynedd diwethaf a 2 o fewn yr adran wedi mynychu yr ysgol yn y gorffennol. Mae pob un o rhain yn un mewn miliwn ac yn un o'r miliwn.



Gyda llaw, basai yn well gen i gael hanner miliwn yn siarad Cymraeg yn 2050 na miliwn yn gallu gwneud ond yn dewis peidio

Dw i'n ffodus iawn o fewn fy adran o gael trawsdoriad o athrawon – fi yw'r unig un na chafodd ddewis siarad Cymraeg gan mai Cymraeg oedd iaith yr aelwyd. Aeth dwy i ysgol cyfrwng Cymraeg er na siaradwyd Cymraeg ar yr aelwyd tra bo dau arall wedi dewis dysgu Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg. A dyna pam efallai dw i wedi aros mewn ysgolion cyfrwng Saesneg trwy gydol fy ngyrfa dysgu . Mae pob disgybl sy'n dewis astudio Cymraeg i Safon Uwch yn dewis mynd yn erbyn y llif. Maent wedi dewis bod yn ddwyieithog neu amlieithog. Dyna pam mae'n rhaid gwerthfawrogi pob un sy'n dewis astudio Cymraeg gan fentro yn erbyn y llif a'n cyfrifoldeb ni fel Cymry Cymraeg yw eu helpu i weld cyfoeth sy yno drwy'r Gymraeg – boed yn gerddoriaeth gan Adwaith, theatr gan Arad Goch, gwyliau fel Tafwyl neu lenyddiaeth o Sali Mali i Mihangel Morgan.

Credaf yn gryf fodd bynnag fod angen pwysu tipyn mwy ar ein hysgolion i fynnu amser dysgu teg – rhaid i'r pwysau hyn ddod gan y Senedd. Gall hyn wahaniaethu o hanner awr yr wythnos i dair awr o ysgol i ysgol. O ddarllen argymhellion y cwricwlwm, dylid neilltuo o leia 10% o'n hamser dysgu i'r Gymraeg.

Dw i ddim yn gallu enwi un ysgol sy'n cyflawni hynny yn anffodus ar draws CA3 a 4. Nid argymhelliad ddylai hyn fod ond deddf. Mae'r darlun yn y cynradd hyd yn oed yn fwy cymhleth. Mae pynciau STEM wedi cael eu hybu dros y blynyddoedd diwethaf. Does gen i ddim yn eu herbyn ond ni ddylai hyn fod ar draul ieithoedd a'r celfyddydau. Byd diflas iawn fasai cymuned heb ieithoedd, cerddoriaeth, dawn, celf a llenyddiaeth.

Braf gweld dros y blynyddoedd diwethaf twf addysg Gymraeg o fewn Caerdydd. Fodd bynnag, hoffwn weld fwy o gefnogaeth i blant sy'n trio dysgu Cymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn 4 oed, dewisias i ddanfon fy mhlant i ysgol gynradd Gymraeg - nid nhw ddewisodd hyn. Yn yr un ffordd, dewisodd rieni eraill addysg cyfrwng Saesneg. Cymry yw mwyafrif o'r rhain a dylai dewis ein rhieni ddim ein hatal rhag bod yn Gymry balch sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael dysgu am hanes ein cenedl -dilynwn esiampl Betty Campbell a frwydrodd dros holl blant Caerdydd beth bynnag oedd lliw eu croen ac iaith eu haelwyd.

CYRSIAU CYMRAEG I'R GWEITHLU ADDYSG

Cofiwch am y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu a mireinio'r Gymraeg:

<https://dysgucymraeg.cymru/porth-gweithlu-addysg/>


neu anfonwch e-bost at cymraeggwaith@nantgwrtheyrn.org neu ffoniwch 01758 750 334 a dewis yr Adran Addysg.



CWRS CODI HYDER - DEFNYDDIA DY GYMRAEG YN YR YSGOL

Cwrs Preswyl ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn ar lefel Uwch a Gloywi

Wythnos Breswyl: 24/3/2025 - 28/3/2025



ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH A RHIAnt A RENNIR



Cofiwch ein bod yn cynnig **AELODAETH HANNER PRIS** yn ystod cyfnod o Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Rhiant a Rennir os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol.

Er mwyn manteisio ar y cynnig hwn, mae'n angenrheidiol eich bod yn rhoid gwybod i ni:

aelodaeth@ucac.cymru
01970 639950



NID YN UCAC YN CYNNIG AD-DALIAD OS NAD YDYCH MEDI EIN HYSBYSU O'R NEWID O FLAEN LLAM.

EICH AELODAETH

Cofiwch ddiweddarw eich manylion!

- Manyllion cyswllt
- Cyfeiriad cartref
- Lleoliad gwaith
- Categori aelodaeth (dyddiau gwaith)



Wedi ei gyllido yn llawn!*

Mae'r cwrs preswyl (Lun-Gwener) yma ar gyfer siaradwyr ar lefel Uwch neu Gloywi ac yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu addysg i fedru defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn eu gwaith. Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar ddefnydd llafar ond yn rhoi sylw i sgiliau deall, ysgrifennu a darllen hefyd. Bydd digon o gyfleoedd yn ystod y cwrs i drafod sut i fynd ati i newid defnydd iaith yn y gwaith ac hefyd i ddatrys heriau sy'n wynebu'r unigolion.

Mae dysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn yn gyfle i gael eich trochi yn y Gymraeg a'i diwylliant, gyda'r elfennau i gyd yn cyfrannu at godi hyder a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.

*Cwrs preswyl lluniaeth llawn wedi ei gyllido yn llawn. Nid yw costau teithio na chyflenwi ar gyfer yr ysgol wedi eu cynnwys.

[HTTPS://DYSGUCYMRAG.CYMRU/PORTH-GWEITHLU-ADDYSG/](https://dysgucymraeg.cymru/porth-gweithlu-addysg/)

Cysylltwch â ni ar cymraeggwaith@nantgwrtheyrn.org neu 01758 750 334 a dewis yr Adran Addysg.


MEWN UNDEB MAE NERTH

Mewngofnodwch i'ch cyfrif
www.ucac.cymru
neu cysylltwch â'r swyddfa:
aelodaeth@ucac.cymru | 01970 639950



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

YMDDYGIAD BYGYTHIOL



Rydym yn ymwybodol bod bywyd yn yr ysgol yn arbennig o brysur a'ch bod yn wynebu heriau wrth wynebu eich gwaith o ddydd i ddydd.

Mae UCAC yn gofidio'n fawr wrth glywed oddi wrth ein haelodau fod trais ar gynnydd yn ein hysgolion.

Credwn yn gryf y dylai ysgolion fod yn llefydd diogel i staff a dysgwyr ac nid yw UCAC yn fodlon derbyn na goddef unrhyw drais, gan unrhyw unigolyn.

Mewn ymateb i'r hyn a glywn gan unigolion am y cynnydd mewn trais yn ein hysgolion, rydym wedi cynhyrchu posteri yn y Gymraeg a'r Saesneg i godi ymwybyddiaeth ac i atgoffa pawb fod trais ac ymddygiad bygythiol yn gwbl annerbyniol.

Cadwch lygad allan am y posteri yma (isod) sydd wedi cyrraedd eich man gwaith yn ddiweddar.

Gofynnwn yn garedig i chi roi'r posteri yma i fyny yn eich man gwaith os gwelwch yn dda mewn man gweledol.

Os nad yw'ch cynrychiolydd wedi derbyn y poster neu os hoffech gopiau ychwanegol cysylltwch â ni ucac@ucac.cymru.

BWRDD GOLYGYDDOL

Llywydd Cenedlaethol: Ceri Evans

Is-Lywydd: Sara Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol: Ioan Rhys Jones

Is-ysgrifennydd Cyffredinol: Mererid Lewis Davies

Cydlynnydd Yr Athro: Iona Davies

Dylunydd: Nia Evans

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru |

www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

MEWN UNDEB
MAE NERTH